# Darganfod mwy am un o Greaduriaid yr Ardd

Anifeiliaid a Phlanhigion

## Bwriad Dysgu

- Dysgu am amrywiaeth y creaduriaid sydd i'w cael mewn gardd.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| | |
|---|---|
| **Gwyddoniaeth** | Drwy waith maes, dylent gael y cyfle i astudio'r planhigion a'r anifeiliaid mewn dau amgylchedd lleol cyferbyniol.<br>- Cyd-ddibyniaeth organebau byw yn y ddau amgylchedd hynny a sut cânt eu cynrychioli fel cadwynau bwyd.<br>- Y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar yr hyn sy'n tyfu ac yn byw yn y ddau amgylchedd hynny.<br>- Sut mae pobl yn effeithio ar yr amgylchedd lleol. |
| **TGCh** | Defnyddio TGCh i hyrwyddo'u dealltwriaeth o wybodaeth y maent wedi'i hadalw a'i chasglu. |
| **Daearyddiaeth** | Byw yn fy myd i: gofalu am leoedd ac amgylcheddau a phwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang. |
| **ADCDF** | Yr amgylchedd naturiol. |

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Ymchwilio i greadur.
- Rhoi gwybodaeth mewn trefn i greu adroddiad.
- Creu rhestr ddosbarth o anifeiliaid.
- Defnyddio llyfrau a gwefannau.
- Annog disgyblion i roi adroddiad llafar am un creadur.

## Adnoddau

Taflen “Y creadur dan sylw”

Templedi

Llyfrau cyfair / Rhyngrhwyd

Y daflen “oral report frame” (or ffolder *adnoddau*)

NPT Biodiversity
It's our nature
Ein natur ni
Bioamrywiaeth CNPT

# Darganfod mwy am un o Greaduriaid yr Ardd

**Amlinelliad o'r Wers**

- Creu rhestr ddosbarth o anifeiliaid y mae'r dosbarth yn gwybod eu bod yn byw mewn gardd.

Pa anifeiliaid ydych chi wedi'u gweld yn eich gardd?

- Darllen y daflen “creadur dan sylw”, yna esbonio y dylent geisio rhoi trefn i'r wybodaeth gan ddefnyddio’r templed.
- Gofyn i'r dosbarth, mewn parau neu grwpiau bach, ddefnyddio'r wybodaeth enghreifftiol i greu proffil o greadur arall.
- Gan ddefnyddio llyfrau cyfair/peiriannau chwilio'r rhyngrwyd, maent yn ymchwilio i'r creadur a ddewiswyd ganddynt.
- Yna maent yn creu proffil creadur, naill ai gan ddefnyddio'r templed a ddarperir neu drwy lunio un eu hunain.
- Wedi i'r disgyblion gwblhau eu proffiliau creaduriaid, trafodwch yr hyn y maent wedi'i ddarganfod. A ddaethant hyd i unrhyw fygythiadau y mae'r anifeiliaid yn eu hwynebu?

Pa gynefinoedd sydd fwyaf addas ar gyfer anghenion y creaduriaid hyn?

Ydy'r holl greaduriaid hyn yn hawdd eu hadnabod?

Beth yw'r cynefinoedd gwahanol sydd i'w cael mewn gardd?

Maent yn chwilio am fwyd ar hyd ymylon coetiroedd, mewn coetiroedd agored, gerddi maestrefol, corsydd a thros ddŵr.

Mae gan gorystlymod gyrff bychain iawn, coesau byrion a phen llydan, gwastad. Maent yn amrywio mewn lliw o oren-frown i lwyd-frown. Mae'r clustiau a'r trwyn yn dywyll.

Gall un corystlum fwyta 3,000 o bryfed mewn un noson - dyma draean o bwysau ei gorff!

Ystlumod yw'r unig famaliaid a all hedfan yn wirioneddol.

Hyd y corff: 3.5-4.5 cm,
Lled ei adenydd: 18-24cm,
Pwysau cyfartalog: 3.8g;

Corystlumod yw ystlumod lleiaf y Deyrnas Unedig

Y creadur dan sylw

# Y Corystlum

Caiff amrywiaeth o bryfed eu bwyta, gan gynnwys gwyfynnod bach, adenydd siderog a gwybed.

Mae ystlumod Prydain a'u clwydfannau'n cael eu diogelu gan y gyfraith gan fod eu niferoedd wedi dirywio'n sylweddol yn ystod y degawdau diweddar.

Mae corystlymod yn aml yn clwydo mewn adeiladau megis eglwysi, tai mâs a thai y mae pobl yn byw ynddynt. Efallai bod gennych ystlumod yn eich atig neu yn nho'r ysgol. Cofiwch, mae'n anghyfreithlon i darfu ar ystlumod a'u clwydfannau.

Y rhywogaeth hon o ystlum yw'r un fwyaf niferus ac eang ym Mhrydain.

Nid yw ystlumod Prydain yn bwyta gwaed!

Nid yw ystlumod yn ddall. Maent yn hedfan a hela yn y tywyllwch drwy ddefnyddio ecoleoli, gan wrando ar adleisiau eu galwadau amledd uchel er mwyn creu map sonig o'u hamgylchedd.

Mae ystlumod yn tueddu i ymddangos wrth iddi nosi i fwydo.

Mae poblogaethau ystlumod y Deyrnas Unedig dan fygythiad oherwydd colli cynefinoedd naturiol a dirywiad yn nifer y pryfed sy'n fwyd iddynt.

Yn y gaeaf maent yn gaeafgysgu mewn holltau mewn adeiladau a choed, yn ogystal a mewn blychau ystlumod, o fis Hydref i fis Mawrth/Ebrill.

Mae'r esgyrn mewn adain ystlum yn debyg iawn i fraich a llaw ddynol, ond bod esgyrn bysedd yr ystlum yn hir iawn, wedi'u cysylltu â philen ddwbl o groen i ffurfio'r adain.

Maent yn paru yn yr hydref ac yn rhoi genedigaeth i un bach yng nghanol mis Mehefin. Genir y rhai bach yn fyw ac maent yn bwydo ar laeth y fam. Cânt eu diddyfnu ac maent yn gallu hedfan erbyn diwedd mis Gorffennaf.

# Y Corystlum

Disgrifiad

Maint

Cynefin

Deiet

Bridio

Gwybodaeth Ychwanegol

# Y ______________________

Disgrifiad

Maint

Cynefin

Deiet

Bridio

Gwybodaeth Ychwanegol